BETH OEDD MENYWOD YNG NGHYMRU YN EI WNEUD YN YSTOD Y RHYFEL BYD CYNTAF?

GARTREF AC AR Y TIR

Merched Byddin Dir y Menywod yn cynaeafu ar fferm Gelli Cadwgan, Llanfair-ym-Muallt, 1917. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru.

Roedd menywod a merched bob amser wedi gweithio ar ffermydd teuluol yng Nghymru. Ond gan fod cymaint o ddynion ifanc yn y fyddin roedd angen menywod i weithio i gael digon o fwyd i'r bobl. O **1915** ymlaen roedd Pwyllgorau Amaethyddol Menywod yn y Rhyfel yn annog menywod i weithio ac yn **1917** cafodd Byddin Dir y Menywod ei ffurfio. Llenwodd menywod eraill swyddi dynion ar y bysys, ar dramiau ac yn clirio sbwriel. Roedd menywod eraill yn gwneud jam a preserfio ffrwythau i'r fyddin, ac roedd pawb yn gwnïo a gwau *'cysuron i'r milwyr'*.

EDITH HAINES
(née Spridgeon),
un o'r tocynwragedd bws cyntaf yn Abertawe.

1915

Cerdyn Cofrestru Cenedlaethol **Elizabeth Jones,** Tyddyn y Bedd, Bethel, sir Gaernarfon. Ar 15 fed Awst 1915 roedd yn rhaid cofnodi pob dyn a menyw 15 i 65 oed ar gyfer gwasanaeth cenedlaethol posibl.

1916

Beatrice Cope a'i mab **Eric,** o Dryleg, Sir Fynwy. Cafodd Eric ei ladd ar ddiwrnod cyntaf Brwydr y Somme, 1af Gorffennaf 1916, yn 18 oed.

womenandwar.wales
menywodarhyfel.cymru

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

CHARITY NUMBER/RHIF ELUSEN 1158204